# Geirfa Allweddol

**Akhand Path** - Darllen y Guru Granth Sahib o glawr i glawr yn ddi-dor, sy'n cymryd tua 48 awr.
**Amrit Samskar** - Seremoni derbyn Sikhiaeth.
**Atgyfodiad** - Dod yn ôl yn fyw ar ôl marw. Resurrection
**Baisakhi** - Gair arall am ŵyl Vaisakhi.
**Bhangra** - Dawns arbennig a gysylltir ag ardal Punjab ac India.
**Caplan** - Un sy'n gwneud gwaith tebyg i ficer neu weinidog ond nid mewn eglwys neu gapel e.e. mewn ysbyty neu garchar.
**Croeshoeliad** - Cosb Rufeinig pan oedd person yn cael ei hoelio i ddau ddarn o bren ar ffurf croes. Cafodd Iesu Grist ei ladd fel hyn. Crucifixion
**Cyfoes** - Rhywbeth modern, nid hen ffasiwn. Contemporary, up to date
**Cynulleidfaoedd** - Grwpiau sy'n cyfarfod i addoli a dysgu am Dduw a Iesu mewn eglwysi/capeli. Congregations
**Datguddio** - Dangos, rhoi gwybodaeth
**Duas** - Gweithred o addoli mewn Islam lle mae'r Mwslim yn rhoi ei hun yn gyfan gwbl i Allah.
**Edifarhau** - Bod yn wirioneddol sori am wneud pethau drwg, dweud sori ac yna stopio gwneud y pethau yna. Repent
**Efengylau** - Pedwar llyfr cyntaf y Testament Newydd, ail hanner y Beibl, lle mae'r awduron, Mathew, Marc, Luc a Ioan yn adrodd hanes Iesu. Gospel
**Eid al-Fitr** - Yr ŵyl sy'n dod a Ramadan i ben.
**Eid Mubarak** - Y cyfarchiad traddodiadol ar Eid al-Fitr – 'boed i chi gael Eid bendithiol.'
**Eidi** - Yr anrhegion a roddir i blant ar Eid
**Enwadau** - Mae Cristnogion y byd wedi eu rhannu yn wahanol grwpiau e.e. Anglicaniaid, Pabyddion, Presbyteriaid, Bedyddwyr, Eglwys Uniongred, Crynwyr. Maen nhw'n addoli mewn ffyrdd gwahanol, ac weithiau yn dysgu pethau gwahanol am Dduw. Denominations
**Ghusl** - Glanhau'r corff cyn addoli mewn Islam.
**Gurdwara** - Adeilad o addoliad a chyfarfod Sikhiaid
**Guru Granth Sahib** - Llyfr sanctaidd Sikhiaeth
**Henna** - Patrymau a wneir ar y dwylo yn bennaf.
**Karah parshad** - Bwyd melys wedi'i fendithio – rhoddir ychydig ohono i bob ymwelydd i'r neuadd weddïo yn y gurdwara.
**Khalsa** - Term am gymuned y Sikhiaid.
**Kirtan** - Canu emynau sanctaidd i gyfeiliant offerynnau cerddorol.
**Langar** - Y gegin yn y Gurdwara a hefyd y bwyd yn rhad ac am ddim sy'n cael ei weini yno.
**Makkah** - Dinas sanctaidd crefydd Islam yn Saudi Arabia.
**Mawl** - Fel arfer canu emynau/caneuon sy'n moli (praise) Duw
**Meseia** - Yn yr Hen Destament, roedd Duw wedi addo Meseia i'r Iddewon – un fyddai'n achub nhw o'u helyntion gyda pŵer Duw. Messiah
**Mewn gair a gweithred** - Wrth siarad ac wrth wneud.
**Muhammad** - Y Proffwyd olaf a'r pwysicaf mewn Islam.
**Nishan Sahib** - Baner y Sikhiaid.
**Panj Pyare** - Y Pump Anwylyd i gofio am y dewrion a fentrodd eu bywydau dros Sikhiaeth / arweinwyr y Gurdwara.

**Pregeth** - Neges grefyddol sy’n cael ei gyflwyno i bobl. Mae fel arfer wedi ei seilio ar ddarn o’r Beibl. Sermon
**Punjab** - Rhanbarth o India a chartref Sikhiaid.
**Qu’ran** - Llyfr sanctaidd crefydd Islam
**Ramadan** - Mis ymprydio mewn Islam.
**Salm** - Cerdd neu gân o fawl i Dduw. Mae llyfr y Salmau yn y Beibl fel llyfr emynau. Psalm.
**Traddodiadol** - Rhywbeth sydd wedi cael ei wneud ers amser hir. Traditional
**Twrban** - Penwisg arbennig y Sikhiaid.
**Tystion** - Pobl sydd wedi gweld rhywbeth yn digwydd ac yn gallu dweud yr hanes. Witnesses
**Ymprydio** - Gwneud heb rywbeth, fel arfer bwyd, am gyfnod.
**Ysbryd Glân** - Mae Cristnogion yn credu yn y Drindod (Trinity )- Duw y Tad, Iesu y Mab a’r Ysbryd Glân. Person ydy’r Ysbryd Glân, ond allwn ni ddim ei weld. Fe wnaeth Iesu anfon yr Ysbryd i helpu ac arwain Cristnogion ar ôl iddo fynd yn ôl i’r nefoedd. Holy Spirit